# POLISI DISGYBLAETH YSGOL BETWS YN RHOS

Mae disgyblaeth dda ac awyrgylch cadarnhaol yn dechrau ar lefel staff, felly mae perthnasau cyfeillgar yn seiliedig ar hyder, ymddiriedaeth a pharch rhwng athrawon yn hanfodol. Rhaid i'r ysgol greu amgylchedd cynnes, naturiol, diogel a chyfeillgar ble gall plant deimlo eu bod yn perthyn. Y nod cyffredinol yw meithrin hunan ddisgyblaeth, gyda phob disgybl yn gwybod y disgwylir cod ymddygiad uchel, yn gyntaf ar gyfer eu lles personol, ac yn ail ar gyfer lles cyffredinol yr ysgol gyfan. Bydd cwricwlwm cytbwys ac eang sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol disgyblion yn yr ysgol ac o'r gymdeithas, yn paratoi disgyblion ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd fel oedolion. Mae disgyblaeth gadarnhaol yn gam tuag at amgylchedd dysgu ymlaciol a chadarnhaol ble fo athrawon yn treulio mwy o amser yn addysgu a llai o amser yn rheoli camymddwyn.

Trwy sefydlu egwyddorion cadarn o fewn ein polisi, ceisiwn ddarparu fframwaith ble mae plant yn dysgu hunan barch, yn parchu hawliau a theimladau eraill, yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain, bod yn deg ac yn onest bob amser a chydweithredu gyda phawb yn y dosbarth.
Mae ar ddisgyblion angen gwybod y bydd eu hathrawon yn cydnabod ac yn cefnogi ymddygiad cadarnhaol a pheidio â goddef a lleihau ymddygiad amhriodol. Sefydlir cyd-ymddiriedaeth a pharch pan fo disgyblion yn gwybod y cânt ymateb gonest a chyson gan eu hathrawon. Yn gyfnewid bydd yr athrawon yn cael ymdrech onest ganddynt hwy.

Mabwysiadwyd y cynllun CAMAU ym mhob dosbarth i annog trafodaeth ynghylch hunan barch a pharch tuag at ddisgyblion ac oedolion oddi fewn a thu hwnt i waliau'r ysgol.
Yn raddol rhoddir mwy o gyfrifoldebau i ddisgyblion wrth iddynt ddatblygu er mwyn hyrwyddo synnwyr o aeddfedrwydd.

Mae prosbectws yr ysgol yn hysbysu rhieni o'n polisi ymddygiad.

### Contract Cytundeb Cartref / Ysgol

Bydd pob disgybl o flwyddyn 2 wedi arwyddo contract cytundeb cartref / ysgol. Mae hyn yn cynnwys cytundeb a arwyddwyd gan y rhieni a'r disgybl i ddilyn rheolau'r ysgol. Rhaid gwneud disgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd eu hadduned wedi'i lofnodi i ddilyn rheolau a chôd ymarfer yr ysgol.

## Cod Ymarfer yr Ysgol

- Rhaid i bob disgybl wrando a dangos parch at bob aelod o staff gan gynnwys y staff atodol. Mae'r côd ymarfer disgwyliedig yn ymwneud â'r diwrnod ysgol cyfan h.y. yn y dosbarth, amser cinio, ac yn ystod ymweliadau addysgol.
- Disgwylir i bawb weithio gyda'i gilydd i gadw'r ysgol yn lân ac yn daclus fel ei fod yn lle croesawgar y gall staff a disgyblion fod yn falch ohonno.
- Disgyblion i gyrraedd yr ysgol ar amser. Mae bod yn hwyr heb reswm yn anghwrtais tuag at staff a phawb yn yr ysgol. Ni ddisgwylir plant ar dir yr ysgol cyn 8:45am. Fodd bynnag rydym yn sylweddoli y bydd amgylchiadau domestig o dro i dro yn gwneud hyn yn amhosibl. Os mai dyma'r achos, rhaid i rieni dderbyn nad yw staff ar ddyletswydd yn swyddogol nes 8:50am ac nid ydynt yn gyfrifol am eu goruchwilio hyd hynny.
- Er mwyn darparu ethos trefnus a disgybledig, rhaid i ddisgyblion lunio llinell ac ymddwyn mewn modd disgybledig a threfnus wrth iddynt gerdded o'r buarth i'w dosbarthiadau, hefyd wrth fynd i mewn ac wrth adael dosbarthiadau a'r gwasanaeth.
- Ni chaniateir i unrhyw ddisgybl adael tir yr ysgol rhwng 8:50 a 3:00/3:30 heb ganiatâd ysgrifenedig neu drafod o flaen llaw gyda'r aelod priodol o staff.
- Mae nodyn neu eglurhad llafar gan rieni neu warcheidwaid yn hanfodol pan fo disgyblion yn absennol.
- Rhaid i ddisgyblion ymarfer hunan barch, parch tuag at eraill a'u heiddo. Mae bwlio, ymladd a defnyddio iaith ymosodol am amharch tuag at eraill ac eiddo eraill yn cael ei ystyried yn dorri côd ymarfer disgwyliedig yr ysgol.
- Os na all disgyblion gymryd rhan mewn gwersi addysg gorfforol am resymau meddygol, rhaid iddynt ddod â nodyn awdurdodedig.
- Mae'n orfodol gwisgo gwisg ysgol.

**Cod Ymarfer amser cinio**

- Golchi dwylo cyn bwyta ac ar ôl defnyddio'r toiled.
- Llunio llinell yn synhwyrol ac yn ddistaw.
- Cerdded yn drefnus i neuadd y pentref.
- Ymddwyn yn synhwyrol ac yn gwrtais wrth fwyta cinio.

**Cod Ymarfer Amser Chwarae**

- Anfonir pob disgybl allan amser chwarae oni bai eu bod yn sâl, neu fod ganddynt nodyn gan rieni.
- Ni ddylid cadw unrhyw ddisgybl yn y dosbarth amser chwarae heb oruchwyliaeth. Dylid hysbysu'r athro ar ddyletswydd buarth os cedwir unrhyw blentyn tu mewn i'r ysgol amser egwyl.
- Disgwylir i blant chwarae mewn modd cyfeillgar.
- Ar ddiwedd amser chwarae dylai disgyblion ffurfio llinell yn gyflym, yn dawel ac yn synhwyrol.

# DISGYBLAETH GADARN

Mae ein côd ymddygiad a disgyblaeth yn seiliedig ar ddisgyblaeth bendant. Mae mwyafrif helaeth y disgyblion yn yr ysgol yn gwrtais, yn feddylgar ac yn ymddwyn yn dda. Felly, gan ein bod yn canmol ymddygiad da yn gyson bydd dymuniadau plant llai cwrtais yn cael eu cyfeirio tuag at ymddygiad da er mwyn cael yr un ganmoliaeth. Ein nod yw gwella ymddygiad disgyblion ymhellach.

**Athroniaeth**

Diben disgyblaeth gadarn yw dal plant yn ymddwyn yn dda, ble fo'r athro yn edrych am ymddygiad priodol, bob amser yn adnabod, canmol ac yn atgyfnerthu disgyblion sy'n dilyn y rheolau.
Mae Ysgol Betws yn Rhos yn ceisio annog ymddygiad da a hunan ddisgyblaeth er mwyn cyflawni addysg o ansawdd uchel i bob disgybl.
Credwn y gall rhieni ac athrawon yn gweithio mewn partneriaeth gyflawni hyn.
Ein nod yw annog ymddygiad da trwy wobrwyo a chanmol. Mae cosbau mewn lle i atal camymddwyn. Ar hyn o bryd mae'r rhain yn cynnwys:

- Aros ar ôl am rhai munudau ar ddiwedd gwers
- Gweithio ar wahân i weddill y disgyblion
- Colli amser chwarae os oes tic yn ymyl enw ar y bwrdd gwyn (3 tic yn golygu colli amser aur ar ddiwedd pnawn Gwener
- Cyfnod sylfaen yn defnyddio system haul, cwmwl a cwmwl du.
- sêr wythnosol i'r rhai sy'n ymddwyn yn dda
- tystysgrifau canmol yn wythnosol yn ystod gwasanaeth bore Gwener
- llyfr dosbarth da
- pwyntiau llys ychwanegol

## Rheoli Disgyblaeth yn y Dosbarth

Mae cynllunio da yn allweddol i reolaeth dosbarth llwyddiannus. Bydd cynllun disgyblaeth dosbarth da yn helpu'r athro dosbarth i greu amgylchedd dysgu sy'n fanteisiol i'r athro a'r disgybl. Mae'r cynllun disgyblaeth dosbarth yn rhoi meini prawf clir i'r athro ar gyfer rheoli ymddygiad disgyblion, ac yn helpu i sicrhau bod pob disgybl yn cael ei drin mewn modd teg a chyson. Mae'r athro'n gwybod beth i'w wneud, ac mae'r disgybl yn gwybod beth i'w ddisgwyl
Mae'r canlynol yn rheolau aur sy'n berthnasol i bob dosbarth:

Rydym yn dyner
- Rydym yn garedig ac yn barod i helpu
- Rydym yn gwrando
- Rydym yn onest
- Rydym yn gweithio'n galed
- Rydym yn gofalu am eiddo

Rheolau eraill yr ydym yn dilyn :

- byddaf bob amser yn gwrando'n ofalus pan ddisgwylir i mi wneud ac ni fyddaf yn siarad pan fydd eraill yn siarad

- byddaf bob amser yn glên ac yn ystyriol o eraill
- byddaf bob amser yn gweithio'n galed ac yn gwneud fy ngorau
- byddaf bob amser yn gwneud fy ngorau ac yn cadw'r dosbarth yn daclus
- byddaf bob amser yn cerdded i mewn i'r dosbarth
- byddaf yn cymryd gofal o bopeth a ddefnyddiaf.

Bydd yr athrawon dosbarth yn trafod rheolau'r dosbarth gyda phob disgybl ar ddechrau pob blwyddyn academaidd.

**Cyfrifoldebau**

Cyfrifoldebau'r Plant
- Gweithio hyd eithaf eu gallu, a chaniatáu i eraill wneud yr un fath
- trin eraill gyda pharch
- ufuddhau i gyfarwyddiadau gan staff yr ysgol
- gofalu am eiddo a'r amgylchedd o fewn a'r tu hwnt i'r ysgol
- cydweithredu gyda phlant ac oedolion eraill
- bod yn y lle iawn ar yr amser iawn

**Cyfrifoldebau Staff**
- trin pob plentyn yn deg a chyda parch
- codi hunan barch plant a datblygu eu potensial llawn
- darparu cwricwlwm heriol, diddorol a pherthnasol
- creu amgylchedd diogel a dymunol, yn gorfforol ac yn emosiynol
- defnyddio rheolau a chosbau yn glir ac yn gyson
- dangos esiampl dda
- sefydlu perthynas dda gyda rhieni fel bod pob plentyn yn gweld fod yr oedolion allweddol yn eu bywydau yn rhannu'r un nod
- cydnabod fod pob disgybl yn unigolyn, ac i fod yn ymwybodol o'u hanghenion
- cynnig fframwaith ar gyfer addysg gymdeithasol.

**Cyfrifoldebau Rhieni**
- I wneud plant yn ymwybodol o ymddygiad priodol ym mhob sefyllfa
- Annog annibyniaeth a hunanddisgyblaeth
- Sicrhau fod eu plant yn cyrraedd ar amser, mewn dillad priodol ar gyfer y tywydd, ac yn sicrhau y'u cesglir o'r ysgol ar amser
- sicrhau fod eu plant yn mynd i'r gwely ar amser rhesymol fel eu bod yn barod ar gyfer yr ysgol y diwrnod canlynol
- Dangos diddordeb ym mhopeth mae'r plentyn yn ei wneud yn yr ysgol
- Meithrin perthynas dda gyda'r ysgol
- Cefnogi'r ysgol wrth weithredu'r polisi hwn
- Cynnig fframwaith ar gyfer addysg gymdeithasol.

Os yw disgybl yn cael rhybuddion yn rheolaidd ac mae cam ymddwyn yn parhau, gellir defnyddio llyfr ymddygiad da/drwg i gadw golwg ac i gadw cyswllt rhwng y cartref a'r ysgol.

## Torri Polisi Disgyblaeth yr Ysgol yn Ddifrifol

Mewn amgylchiadau difrifol, pan fo disgybl yn gwrthod cadw at reolau a chôd ymarfer yr ysgol, a phan fo ymddygiad disgybl yn niweidio ei addysg a'i les ei hun, ac eraill yn yr ysgol, bydd yr ysgol a phanel disgyblaeth y corff llywodraethol yn dilyn canllawiau AALl. Cyn i'r ysgol a'i phwyllgor disgyblaeth benderfynu gwahardd y disgybl, byddant yn fodlon fod holl strategau eraill i wella ymddygiad y plentyn wedi eu ceisio ac wedi methu.

**Mabwysiadwyd gan y Llywodraethwyr**______________________________

**Arwyddwyd gan Gadeirydd y Llywodraethwyr**____________________